



Dinas a Sir Abertawe

Polisi Rheoli Risgiau

Diben

Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion ar gyfer rheoli a chyfathrebu risgiau, gan sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol yn Ninas a Sir Abertawe.

Mae'r Polisi Rheoli Risgiau'n rheoli sut mae'r cyngor yn rheoli risgiau er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion, risgiau sy'n codi wrth gyflwyno gwasanaethau, risgiau i iechyd corfforaethol ac ariannol a llywodraethu a'r risgiau tymor hir sy'n wynebu'r cyngor a'r gymuned.

Mae'r cyngor yn cydnabod bod ganddo gyfrifoldeb i reoli risgiau i fusesau'n effeithiol er mwyn lleihau ansicrwydd wrth gyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion ac i elwa o gyfleoedd.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff y cyngor a dylai ei egwyddorion gael eu gweithredu wrth weithio'n fewnol neu'n allanol gyda'i bartneriaid a'i randdeiliaid eraill.

Cymeradwyaeth

Teitl	Dyddiad

Cyfeirnod.: Fersiwn 1.2

Dyddiad: 22/02/2017

Awdur: Perfformiad a Chyflawni

Gwefan <http://staffnet/riskmanagement>

Polisi Rheoli Risgiau

Cynnwys

Rhif	Teitl	Rhif y dudalen
1	Datganiad Rheoli Risgiau	2
2	Beth yw Rheoli Risgiau?	2
3	Nodau Rheoli Risgiau	2
4	Lefelau Risg	3
5	Swyddogaethau a Chyfrifoldebau	4
6	Cylch Rheoli Risgiau	3
7	Cynnydd Mewn Risgiau	5
8	Gohebiaeth Rheoli Risgiau	5
9	Fframwaith Rheoli Risgiau Corfforaethol	5

Taflen Reoli'r Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r Newidiadau
1.2	2016/17	Diben - diwygiedig
		Datganiad Rheoli Risgiau - diwygiedig
		Beth yw Rheoli Risgiau - diwygiedig
		Nodau Rheoli Risgiau - diwygiedig
		Egwyddorion Rheoli Risgiau - dilëwyd
		Lefelau'r Risgiau - ychwanegwyd
		Swyddogaethau a Chyfrifoldebau - ychwanegwyd
		Cylch Rheoli Risgiau - ychwanegwyd
		Dwysâd Risgiau - ychwanegwyd
		Gohebiaeth Rheoli Risgiau - diwygiedig
		Fframwaith Rheoli Risgiau Corfforaethol - diwygiedig

Polisi Rheoli Risgiau

1. Datganiad Rheoli Risgiau

Mae Dinas a Sir Abertawe yn ymwybodol bod natur ac amrywiaeth ei gyfrifoldebau a'i amgylchedd yn cyflwyno amrywiaeth eang o risgiau. Gall y fath risgiau fygwth llwyddiant nodau ac amcanion y cyngor fel a nodir yn y Cynllun Corfforaethol, a gallant effeithio ar ei weithwyr, ei defnyddwyr gwasanaeth, y rhai sy'n talu treth y cyngor a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r cyngor hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng annog arloesedd ac osgoi risgiau. Mae'n addas i gymryd rhai risgiau bwriadol a'u rheoli wrth fynd ar ôl cyfleoedd i wella gwasanaethau ac i gael gwell gwerth am arian.

Bydd y cyngor, fel pob corff cyhoeddus, yn gorfod deall a mynd i'r afael â'r risgiau a'r heriau tymor hir, yn ogystal â'r risgiau llai a chanolig, sy'n wynebu'r cyngor a'r gymuned. Mae angen i ni rwystro risgiau rhag digwydd a lliniaru eu heffaith os byddant yn digwydd. Efallai y bydd angen i ni weithio gydag eraill i atal risgiau rhag digwydd neu i'w rheoli. Mae angen i ni fod yn ystyriol nad yw ymdrin â risgiau'n creu risgiau a phroblemau i gyrrff cyhoeddus eraill. Bydd cynnwys cleientiaid, cwsmeriaid a dinasyddion i atal a rheoli risgiau'n helpu hefyd.

Er nad yw dileu risg yn gyfan gwbl yn ddichonadwy nac yn ddymunol, mae'r cyngor yn ymrwymedig i barhau i reoli risgiau drwy broses cost effeithiol ffurfiol sy'n ymwneud ag adnabod, categorio, gwerthuso a thrin risgiau er mwyn dileu neu liniaru'r debygolrwydd o'r risgiau'n digwydd a'u heffaith.

Bydd nodi blaenoriaethau ac asesu risgiau'n glir yn gwella llywodraethu corfforaethol a pherfformiad ac yn arwain at ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau a gwelliannau uniongyrchol i'r gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

2. Beth yw rheoli risgiau?

Mae'r term 'rheoli risg' yn cynnwys yr holl weithgareddau y mae eu hangen er mwyn nodi a rheoli'r risg gallai gael effaith ar gyflawniad busnes y cyngor.

Rheoli risg yw'r broses lle nodir, gwerthusir, a rheolir risgiau ac mae'n elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol.

Diffiniad o risgiau

Risg yw'r bygythiad y bydd digwyddiad neu weithred yn cael effaith andwyol ar allu sefydliad i gyflawni ei flaenoriaethau ac i gyflawni ei strategaethau'n llwyddiannus.

Mae risg yn deillio o fethu â chipio cyfleoedd wrth ddilyn amcanion busnes cymaint ag o fygythiad y bydd rhywbeth gwael yn digwydd.

3. Nodau Rheoli Risgiau

Drwy'r polisi hwn mae'r cyngor yn bwriadu:

- Darparu ymagwedd effeithiol/gyson at adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau ar draws yr holl weithgareddau.
- Gwella gallu'r cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion.
- Gwreiddio rheoli risgiau yn niwylliant ac arferion y cyngor fel bod pawb yn cydnabod bod rheoli risgiau'n rhan o'u swyddi.
- Rhoi mwy o bwyslais ar ataliaeth yn hytrach na chanfod a chywirow.

Polisi Rheoli Risgiau

- Gwella'r ffyrdd o adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau strategol a hir dymor, risgiau gweithredol a risgiau cymunedol.
- Gwarchod a gwella asedau a delwedd y cyngor.
- Gwreiddio'r Egwyddor Cynladwyedd (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) a gwella prosesau a chanlyniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r cyngor.

4. Lefelau Risg

Mae gwahanol lefelau yn y gofrestr risgiau: Risgiau Corfforaethol, Cyfarwyddiaeth, Gwasanaeth, Prosiect/Rhaglen a Gwybodaeth.

Risgiau corfforaethol yw'r rhai sy'n cael effaith bosib ar y cyngor cyfan a/neu'r gymuned neu y gallent atal y cyngor rhag cyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion.

Risgiau'r gyfarwyddiaeth yw'r rhai sy'n cael effaith bosib ar un Gyfarwyddiaeth a gallai ymyrryd arni'n cyflawni ei blaenoriaethau a'i amcanion.

Risgiau i wasanaethau yw'r rhai sy'n cael effaith bosib ar Uned Wasanaeth unigol a gallai ymyrryd arni'n cyflawni ei blaenoriaethau a'i amcanion.

Risgiau rhaglenni a phrosiectau yw'r rhai a allai gael effaith niweidiol neu fel arall ar gyflawni amcanion y rhaglenni neu'r prosiectau.

Mae risgiau gwybodaeth yn cynnwys mynediad, defnyddio, camddefnyddio neu gamosod gwybodaeth, cofnodion a data a ddelir gan y cyngor sy'n gyfrinachol, yn fasnachol neu'n sensitif mewn modd twyllodrus, heb awdurdod neu'n esgeulus.

Gall risgiau ymddangos mewn mwy nag un lefel yn y gofrestr risgiau ond byddai'r lliniariad a'r rheolaeth yn berthnasol ac yn benodol i bob lefel o risg.

Nodir risgiau yn ystod cynllunio Corfforaethol, Cyfarwyddiaeth a Gwasanaeth neu'n ystod asesiad neu fel y byddant yn codi.

Cofnodir pob risg yn y Cofrestrau Risgiau ac fe'u rheolir o leiaf unwaith y mis yn y fforwm mwyaf priodol fel y nodir yn y Fframwaith Rheoli Risgiau sy'n cyd-fynd â'r polisi hwn.

Bydd risgiau corfforaethol hefyd yn cael eu nodi a'u hadolygu'n fanwl bob chwarter yn unol â monitro perfformiad corfforaethol.

Yn ychwanegol, mae risgiau COCH i'r gwahanol lefelau, gan gynnwys risgiau'r Gyfarwyddiaeth a'r Gwasanaeth, yn amlwg a chânt eu hadolygu pob mis gan y TRhC.

5. Rolau a Chyfrifoldebau

Yr arweinydd a'r Cabinet sy'n gyfrifol am osod polisi rheoli risgiau'r cyngor a chytuno ar y Fframwaith Rheoli Risgiau, bod yn gyfrifol neu'n gyfrifol ar y cyd am y Risgiau Corfforaethol gyda'r TRhC, lle gall y cyngor helpu i reoli'r risgiau, ac asesu'r risgiau presennol a thymor hir sy'n gysylltiedig ag adroddiadau'r cyngor.

Y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC) sy'n gyfrifol am sicrhau bod polisi, fframwaith a threfniadau effeithiol ar waith er mwyn rheoli'r risgiau yn y cyngor. Mae'r TRhC hefyd yn gyfrifol neu'n gyfrifol ar y cyd am Risgiau Corfforaethol gyda'r Cabinet

Polisi Rheoli Risgiau

Ile gall y TRhC helpu i reoli'r risgiau ac er mwyn adolygu a monitro'r risgiau 'COCH' yn aml ar lefelau risg gwahanol.

Mae'r Cabinet a'r TRhC yn berchen ar y Polisi a'r Fframwaith Rheoli Risgiau ar y cyd ac yn gyfrifol amdanynt, yn ogystal â hyrwyddo rheoli risgiau yn y cyngor. Maent yn gyfrifol ar y cyd am nodi a gwerthuso'r risgiau corfforaethol presennol a thymor hir yn ystod cynllunio corfforaethol, a gwerthuso, monitro a sicrhau bod risgiau corfforaethol yn cael eu rheoli wrth iddynt ymddangos. Mae'r TRhC a'r Cabinet yn gyfrifol ar y cyd am Risgiau Corfforaethol lle gall y TRhC a'r Cabinet weithio gyda'i gilydd i reoli'r risg.

Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am hyrwyddo a gwneud trefniadau er mwyn gwreiddio rheoli risgiau yn eu cyfarwyddiaeth a'u hunedau gwasanaeth. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am nodi a gwerthuso'r risgiau presennol a thymor hir yn ystod cynllunio'r gyfarwyddiaeth a'r gwasanaeth ac wrth iddynt ymddangos, ac yn gyfrifol am eu hadolygu, eu monitro a sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli. Bydd y cyfarwyddwyr a'r penaethiaid gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod risgiau'n cael eu dwysáu i'w rheoli a'u lliniaru pan fo'n briodol.

Mae gan aelodau'r Cabinet gyfrifoldeb ar y cyd/gyfrifoldeb am Risgiau Corfforaethol, Cyfarwyddiaeth a Gwasanaeth lle maen nhw'n gallu helpu i reoli'r risgiau.

Mae pob aelod yn gyfrifol am ystyried y risgiau presennol a thymor hir sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau'r polisi.

Mae pob swyddog a rheolwr yn gyfrifol am nodi cyfleoedd a rheoli risgiau'n effeithiol yn eu swyddi, adrodd am unrhyw bryderon, digwyddiadau neu achosion cael a chael sy'n ymwneud â rheoli risgiau i'w rheolwyr llinell. Mae'r swyddogion a'r rheolwyr yn gyfrifol am adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau gweithredol a sicrhau eu bod yn cael eu nodi ar y cofrestr/olrheinwyr/templodi adrodd risgiau perthnasol. Mae'r swyddogion a'r rheolwyr yn gyfrifol am ddwysáu risgiau i'w rheoli a'u lliniaru pan fo'n briodol.

Yr is-adran Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r cyngor ar effeithiolrwydd polisi a threfniadau rheoli risgiau.

Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am herio a darparu sicrwydd annibynnol i aelodau am ddigonolrwydd y Polisi a'r Fframwaith Rheoli Risgiau, datblygu a gweithredu rheoli risgiau yn y cyngor a monitro cynnydd wrth fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â risgiau yr adroddir i'r pwyllgor.

Yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) sy'n gyfrifol am sicrhau bod y risgiau gwybodaeth yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer yr holl ddeilliannau busnes a darparu atebolrwydd a sicrwydd ar lefel y Bwrdd y bydd risgiau gwybodaeth yn cael sylw.

Y 'Swyddog Cyfrifol' sy'n gyfrifol am oruchwylio, monitro a rheoli risg a nodir. Y swyddog cyfrifol yw'r person sydd â'r gallu i wneud rhywbeth i reoli'r risg. Bydd y swyddog cyfrifol yn dwysáu'r risgiau sydd i'w rheoli a'u lliniaru pan fo angen.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth fanwl am rolau a chyfrifoldebau Rheoli Risgiau yn Fframwaith Rheoli Risgiau'r cyngor sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn.

6. Cylch Rheoli Risgiau

Mae'r cyngor yn gweithredu Cylch Rheoli Risgiau 'Pedwar Cam' ar draws y cyngor i ddarparu ymagwedd gyson at reoli risgiau.

Polisi Rheoli Risgiau

Nodir y risgiau drwy ystyried y peryglon a allai ddigwydd, ac, os byddant yn digwydd, eu heffaith andwyol neu effaith arall.

Bydd y risgiau cyfresol a thymor hir yn cael eu hadnabod, eu categoreiddio a'u hadolygu'n ffurfiol yn ystod cynllunio corfforaethol, cyfarwyddiaeth a gwasanaethau blynyddol.

Categoreiddir risgiau wedi'u nodi yn: risgiau strategol (tymor hir neu allanol), risgiau gweithredol sy'n codi o weithgaredd y cyngor neu gyflwyno gwasanaethau; risgiau ariannol i gynllunio cyllideb, rheoli neu gydnerthu; risgiau rheoleiddiol o ganlyniad i fframweithiau deddfwriaethol, a; risgiau llywodraethol o ganlyniad i arweinyddiaeth, rheolaeth, gwneud penderfyniadau neu reoli'r cyngor. Bydd categoreiddio'r risgiau'n helpu i egluro natur y risgiau ac i helpu i nodi a yw risg benodol yn risg gorfforaethol, cyfarwyddiaeth neu wasanaeth.

Gwerthusir risgiau wedi'u nodi yn unol â'r debygoliaeth y byddant yn digwydd a'u heffaith os ydynt yn digwydd.

Unwaith y bydd y risgiau wedi'u nodi a'u gwerthuso, gwneir penderfyniad ynghylch sut i ymateb i risgiau penodol drwy gymryd camau gweithredol i wella'r canlyniad fel y nodir yn y Fframwaith Rheoli Risgiau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn. Wrth ystyried sut i ymateb i risgiau, bydd yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) yn cael ei gweithredu.

Bydd y canlyniadau o weithrediad y Cylch Rheoli Risgiau'n cael eu cofnodi yn y CofrestrRisgiau priodol.

Bydd risgiau'n cael eu rheoli a'u monitro yn y fforwm priodol yn fisol ac yn fwy aml os bydd angen.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth fanwl ar y Cylch Rheoli Risgiau yn Fframwaith Rheoli Risgiau'r cyngor sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn.

7. Cynnydd Mewn Risgiau

Bydd risgiau'n dwysáu pan fydd effaith risg, neu benderfyniadau neu weithredoedd sydd eu hangen er mwyn lliniaru neu reoli'r risgiau y tu hwnt i wasanaeth neu gyfarwyddiaeth sengl, neu pan ragorwyd ar derfyn goddefiant risgiau neu am resymau eraill yr amlinellwyd yn fanylach yn y Fframwaith Rheoli Risgiau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn.

8. Gohebiaeth Rheoli Risgiau

Mae'r polisi hwn a'r Fframwaith Rheoli Risgiau cysylltiol yn ceisio helpu i ymgorffori rheoli risgiau yn niwylliant y cyngor. Bydd hyn yn gofyn am gyfathrebu a hyfforddiant effeithiol gan staff ac aelodau. Mae hadnabod a gwerthuso risgiau'n cael eu gwreiddio mewn i gynllunio corfforaethol a gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r Cabinet, y TRhC, y cyfarwyddwyr unigol a Phenaethiaid Gwasanaethau gefnogi a gwneud trefniadau ar gyfer rheoli risgiau yn y cyngor. Bydd y cyngor yn lledaenu arfer gorau rheoli risgiau o'i brofiad ei hun a phrofiad eraill.

9. Fframwaith Rheoli Risgiau Corfforaethol

Dylai'r polisi hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r Fframwaith Rheoli Risgiau, sy'n ceisio helpu rheolwyr ac aelodau ar bob lefel i gymhwyso egwyddorion rheoli risg yn gyson ar draws eu meysydd cyfrifoldeb.